cyngor ar bopeth

Cyngor Ar Bopeth Cymru

# Adolygiad blynyddol

2013 14

# Yng Nghymru 2013/14

**337,000**
o faterion yn ymwneud â chyngor wedi derbyn sylw.

**134,000**
o gwsmeriaid unigol wedi derbyn cyngor.

**Un filiwn**
o ymweliadau i adran Cymru ein gwefan hunangymorth Adviceguide.

**13,000**
o ymweliadau i gynnwys Cymraeg ar Adviceguide.

**375**
o leoliadau ble mae'r gwasanaeth yn cynnig cyngor annibynnol yn rhad ac am ddim.

**20** o aelodau Canolfannau Cyngor Ar Bopeth yng Nghymru yn cyflenwi pob awdurdod lleol.

Dilynwch ni ar Twitter
**twitter.com/CABCymru**

Hoffwch ni ar Facebook
**facebook.com/CitizensAdvice**

Gwyliwch ein ffilmiau ar YouTube
**youtube.com/CitizensAdvice**

I ddod o hyd i'ch CAB lleol ar-lein:
Gweler **citizensadvice.org.uk/getadvice**

I gael cyngor ar-lein:
Gweler **adviceguide.org.uk/cymru**

I wirfoddoli yn eich CAB lleol:
Gweler **citizensadvice.org.uk/join-us**

"Roedd y gwasanaeth yn ardderchog. Ni allaf ei ganmol ddigon."

**Adborth gan gleient**

# Cyflwyniad

Unwaith eto, mae 2013/14 wedi bod yn flwyddyn eithriadol o brysur i'r gwasanaeth Cyngor Ar Bopeth yng Nghymru, gyda dros 134,000 o bobl yn dod atom am gyngor am dros 337,000 o faterion, a llawer mwy yn defnyddio'n gwasanaethau ar-lein. Mae'n sesiynau hyfforddiant ariannol wedi rhoi'r grym i bobl gymryd rheolaeth dros eu harian, ac rydym wedi parhau i ymgyrchu am newidiadau polisi i atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf.



Ni fyddai dim o'r gwaith hyn yn bosib heb gefnogaeth ac ymrwymiad bron i 800 o wirfoddolwyr ymroddgar, a'r holl staff sy'n gweithio ochr yn ochr â hwy, ac sydd wedi cynorthwyo i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ar draws yr holl wlad. Ni allwn ddiolch digon iddynt.

Mae effaith economi sy'n pallu, toriadau yng ngwariant cyhoeddus a thomen o ddiwygiadau yn parhau i effeithio ar lawer, yn cynnwys rhai sy'n ennill incwm isel, teuluoedd, a'r rhai tlotaf yn ein cymunedau. Mae'r dyfodol yn parhau'n ansicr, mae'r galw am gyngor yn cynyddu ac mae'n gwaith dylanwadu yn hanfodol i wneud cymdeithas yn fwy teg. Mae arian yn parhau'n brin ond mae'n rhaid inni ddal i wella'r hyn rydym yn ei wneud, felly eleni, rydym wedi parhau i symud ymlaen drwy:

- ymateb yn gadarnhaol i Adolygiad Gwasanaethau Cynghori Llywodraeth Cymru trwy gyd-weithio i gyflenwi cyngor o ansawdd sicr ar gyfer y problemau mae pobl yn eu wynebu
- ymgyrchu i sicrhau bod anghenion ein cwsmeriaid yn cael eu deall, yn enwedig wrth i newidiadau diwygio lles barhau
- parhau i *Sefyll dros gydraddoldeb* trwy ddarpariaeth ein cyngor ar wahaniaethu
- cynllunio ein blaenoriaethau polisi ac ymgyrchu ar y prif faterion sy'n effeithio ar ein cwsmeriaid
- amlygu materion defnyddwyr sydd o'r pwys mwyaf i'n cwsmeriaid, a chynyddu ein cyfrifoldebau newydd o ran defnyddwyr ynni a marchnadoedd post
- gwella mynediad dros y ffôn at ein gwasanaethau ar Y Llinell Gyngor trwy eu gwneud yn haws eu cyrraedd.

Mae Cyngor Ar Bopeth wedi bod yn cyflenwi gwasanaethau cynghori ar draws Cymru dros y 75 mlynedd diwethaf, a byddwn yn dathlu'n pen-blwydd yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 2014. Wrth edrych yn ôl ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yma, rydym yn benderfynol wrth symud ymlaen, i gynllunio gwasanaeth modern, addas i anghenion cyfredol ein cwsmeriaid, a'u hanghenion i'r dyfodol.

Frances Targett

**Fran Targett**
**Cyfarwyddwr – Cyngor Ar Bopeth Cymru**

# Pwy yr ydym ni a'r hyn rydym yn ei wneud

## Ni yw'r elusen cynghori fwyaf yn y DU

Yn 2013/14, bu i Ganolfan Cyngor Ar Bopeth Cymru gynorthwyo dros 134,000 o bobl yng Nghymru gyda thros 337,000 o broblemau.

Rydym yma i bawb, ac yn rhoi cyngor ar ystod o faterion cyffredin – unrhyw beth o ddyled, iechyd, gwaith ac arian, i dai a phrynwyr. Rydym wedi bod yma yn rhoi cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd yn rhad ac am ddim ers 1939. Ond nid ydym yma i'n cwsmeriaid yn unig – rydym yn defnyddio'u storïau i ymgyrchu ar faterion mawr er budd y boblogaeth ehangach.

## Rydym yn lleol ac yn genedlaethol

Mae gan Ganolfan Cyngor Ar Bopeth Cymru rwydwaith o 20 o ganolfannau yng Nghymru – i gyd yn elusennau unigol. Rydym yn cael gwared â'r rhwystrau at gyngor trwy fynd i fannau mae pobl ein hangen fwyaf. Dyna'r rheswm dros gyflenwi'n cyngor o 375 o leoliadau yn y gymuned. Mae pob Canolfan Cyngor Ar Bopeth yn aelod o Gyngor Ar Bopeth, y corff Cenedlaethol sy'n darparu cefnogaeth TG, hyfforddiant a chefnogaeth weithredol. Mae Cyngor Ar Bopeth hefyd yn defnyddio tystiolaeth leol i gydlynu a chefnogi ymgyrchoedd ar hyd a lled y gwasanaeth fydd yn datrys problemau cenedlaethol sy'n cael effaith ar lawer iawn mwy o bobl na'r ydym ni'n eu cynorthwyo trwy gyngor.

Mae Cyngor Ar Bopeth Cymru'n cael ei lywodraethu gan Bwyllgor Cyngor ar Bopeth Cymru, sy'n is-bwyllgor o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor ar Bopeth. Mae'n defnyddio'i bwerau dirprwyedig i osod polisïau penodol ar gyfer y gwasanaeth yng Nghymru.

## Rydym yn ei gwneud yn haws i gael cymorth

**Gallwch gael at ein gwybodaeth a'n cyngor trwy ein gwasanaethau wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn ac e-bost, ac ar-lein.**

**Yn ogystal â bod ar y stryd fawr, rydym yn rhoi cyngor o leoliadau fel canolfannau cymunedol, meddygfeydd, llysoedd a charchardai.**

> "Ni fyddwn wedi gallu mynd ymhell heb gael cymorth CAB. Rwy'n ddiolchgar iawn am y cymorth a roddwyd i mi."

**Adborth gan gleient**

# Gwasanaethau cynghori

Mae Cyngor Ar Bopeth Cymru'n chwarae rhan bwysig ar draws Cymru wrth fynd i'r afael ag anghyfiawnder, lleihau tlodi ac allgau cymdeithasol, a galluogi pobl i wireddu eu llawn botensial.

## Rôl cyngor

**Rydym yn deall mai un broblem yn aml yw achos neu ganlyniad problem arall, felly, yn hytrach na mynd i'r afael â mater unigol, bydd cynghorwyr yn edrych yn gyfannol ar sefyllfa'r cwsmer. Wrth wneud hyn, gellid canfod yn fuan problemau posibl eraill, neu eu rhagatal, a'u rhwystro rhag dwysáu i rywbeth mwy difrifol.**

**Mae Canolfannau Cyngor Ar Bopeth yng nghanol eu cymunedau, ac mae'r cyngor o ansawdd a gynigir yn aml yn adlewyrchu proffil y preswylwyr. I'r cwsmeriaid, gall hyn olygu derbyn gwasanaeth mwy cynhwysol. Er enghraifft, mynediad at gynghorwyr amlieithog neu wybodaeth ar faterion lleol penodol.**

## Cyflenwi gwasanaeth cynghori i gymunedau: Gwasanaethau ledled Cymru

Mae Cyngor Ar Bopeth Cymru'n dal contractau dros nifer o fentrau ledled Cymru ac yn is-gontractio i Ganolfannau Cyngor Ar Bopeth ar gyfer eu cyflenwi.

### Y Llinell Gyngor

Y Llinell Gyngor yw gwasanaeth ffôn Cyngor Ar Bopeth yng Nghymru, a lansiwyd yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2010 fel gwasanaeth dwyieithog ledled Cymru. Ers hynny, mae Y Llinell Gyngor wedi tyfu o nerth i nerth, yn darparu mynediad cyflym a hwylus at wasanaethau ar draws Cymru. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn dros hanner miliwn o alwadau ers ei lansio.

Yn 2013/14 cynhaliodd Y Llinell Gyngor 42,000 o asesiadau ffôn, nifer trawiadol iawn, gyda 5,500 o alwadau eraill wedi'u trosglwyddo i'n sefydliadau partner yn cynnwys Llinell Ddyled Genedlaethol, Llinell Gymorth Defnyddwyr, y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol a'r Gwasanaeth Cynghori Pensiynau. O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gwelodd Y Llinell Gyngor gynnydd o 50 y cant yn y galwyr oedd yn dewis cael at y gwasanaeth Cymraeg.

**50% o gynnydd mewn galwyr yn mynd at y gwasanaeth Cymraeg.**

Cynhaliwyd digwyddiad pwrpasol ar gyfer Y Llinell Gyngor yn Llandrindod, pan welwyd nifer o ganolfannau yn dod at ei gilydd i rannu arferion da wrth gyflenwi eu gwasanaeth ffôn. Roedd presenoldeb da yn y digwyddiad, a gallodd y rhwydwaith wrando ar nifer o siaradwyr yn cynnwys pennaeth gwasanaeth ffôn Nwy Prydain wedi'I leoli yng Nghaerdydd, ac sy'n cael ei gydnabod fel arweinydd diwydiant ym maes gwasanaethau ffôn.

## Gwasanaeth Cyngor Ar Bopeth i ddefnyddwyr

Mae pawb yn ddefnyddiwr, a dyna pam mae gwasanaeth Cyngor ar Bopeth i ddefnyddwyr mor bwysig. O ffonau i wresogi cartrefi, mae materion defnyddwyr yn hanfodol i fywyd bob dydd.

Ers ei lansio ym mis Ebrill 2012, mae'r gwasanaeth i ddefnyddwyr wedi gweithio'n glos â swyddfeydd lleol Safonau Masnach a rheolyddwyr eraill ar gwynion sy'n rhaid ymchwilio iddynt a gweithredu arnynt.

Ym mis Rhagfyr 2013, derbyniodd y gwasanaeth i ddefnyddwyr ei ail filiynfed galwad, ac mae wedi ymdrin â 1.2 miliwn o gysylltiadau ar draws y DU yn cynnwys bron i 48,000 o achosion o Gymru.

### Y tri phrif fater a godwyd eleni oedd:



**moduron ail-law** — **nwyddau a gwasanaethau personol** — **ffonau symudol**

## Ein ffonio ni

**Mae Cyngor Ar Bopeth wedi brwydro'n hir ac yn ddyfal i sicrhau bod ein llinellau cymorth cenedlaethol yn rhoi'r gwerth gorau posib. Rydym wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau arian er mwyn gostwng costau i'r galwyr, ac yn ddiweddar, wedi llwyddo i wneud hynny ddigwydd. Erbyn mis Medi 2014 bydd bron pob un o'n llinellau cymorth yn gweithredu ar rifau 03. Mae hyn yn golygu y bydd galw ein llinellau cymorth yn costio ddim mwy na galwadau i rifau lleol.**

## Cyngor Da, Iechyd Da

Partneriaeth wedi'i hariannu rhwng Cyngor Ar Bopeth Cymru a Llywodraeth Cymru yw Cyngor Da, Iechyd Da. Nod y prosiect yw uchafu incwm y bobl hynny mewn ardaloedd difreintiedig sydd a thlodi'n debygol o effeithio ar eu hiechyd.

Mae Canolfannau Cyngor Ar Bopeth yn darparu cyngor mewn cydweithrediad â thimau lleol gofal iechyd ar draws Cymru. Mae gan bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru o leiaf un cynghorwr arbenigol yn gweithio ar draws y gymuned.

Yn 2013/14, mae'r gwasanaeth Cyngor Da, Iechyd Da, wedi gweld dros 20,000 o gwsmeriaid newydd, ac wedi ymdrin â bron i 40,000 o achosion newydd.

Mae'r 'enillion a gadarnhawyd' cyfunol am y flwyddyn hon ar gyfer yr ymgyrch gyfan, dros £16 miliwn, yn fwy na dyblu'r ffigwr targed o £8 miliwn.

### Beth sy'n cael ei gynnig?

Mae'r bartneriaeth yn gweithredu'n wahanol yn ôl gofynion lleol, ond gallai gynnwys:

- sesiynau cyson Canolfan Cyngor Ar Bopeth mewn meddygfeydd a chanolfannau iechyd
- ymweliadau cartref i gleifion yn dilyn cyfeiriadau gan weithiwr iechyd
- sesiynau cynghori mewn ysbytai cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl.


Modelau sydd yn y llun © John Birdsall Photography

## Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Cyngor Ar Bopeth Cymru sy'n dal y prif gontract ar gyfer cyflenwi sesiynau Cyngor ar Arian wyneb yn wyneb ar draws Cymru. Yn ystod 2013/14, bu i'r gwasanaeth gyflenwi bron i 6,400 o sesiynau (sy'n cynrychioli 120 y cant o darged y prosiect), allan o dros 175 o leoliadau cymunedol ar draws Cymru. Mae'r gwasanaeth yn ddi-werthiant hollol, ac nid yw'n darparu cyngor rheoledig nac yn cymeradwyo cynhyrchion na gwasanaethau penodol.

Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae cyngor ar arian yn cynorthwyo pobl i wneud penderfyniadau ariannol ar bynciau fel:

- cyllido gwariant wythnosol neu wariant misol
- cynilo a benthyca, yswirio a diogelu cwsmeriaid a'u teuluoedd
- cynllunio ar gyfer ymddeol
- deall budd-daliadau treth a nawdd cymdeithasol
- deall y jargon – esbonio'r iaith dechnegol a ddefnyddir yn y diwydiant gwasanaethau ariannol.

O ganlyniad i'n perfformiad yn y tair blynedd gyntaf, rydym wedi sicrhau arian am ddwy flynedd ychwanegol.

## Cyngor ar arian wrth ei waith

**Roedd Marie, un o'n cynghorwyr ariannol wedi rhoi sesiwn i gwsmer oedd yn dioddef anhwylder iechyd meddwl, ac a oedd, ynghyd â'i wraig, angen cymorth gyda'u pensiwn. Budd-daliadau oedd eu hunig incwm. Roedd angen iddynt wneud penderfyniad pwysig, ond nid oeddynt yn deall dim am eu dewisiadau, roeddynt yn teimlo ar goll, a ddim yn gwybod beth i wneud nesaf. Gallodd ein cynghorydd ariannol esbonio cymhlethdodau pensiwn, yn cynnwys eu dewisiadau, mewn ffordd hawdd a syml, Esboniodd Marie beth yw blwydd-dal a'r lwmp swm posib ar gael iddynt, ac a fyddai o gymorth i dalu am waith hanfodol ar eu tŷ. Nid oeddynt chwaith yn ymwybodol o'r effaith bosib y byddai eu penderfyniad yn ei gael ar y budd-daliadau a dderbynnir. Trafodwyd hyn hefyd, a dywedwyd wrthynt wrth pwy fyddai'n rhaid iddynt roi gwybod am y newidiadau i'w hincwm neu eu cyfalaf.**

**"Dim ond i roi gwybod ichi fy mod wedi cysylltu â'n darparwr pensiwn fel y gwnaethoch chi awgrymu, a rhaid i mi ddiolch ichi!! Mae'r enghreifftiau newydd yn llawer gwell, felly cadw pethe'n syml oedd y gorau, fel y dywedoch chi. Roeddwn yn falch iawn ohonof fy hun. Unwaith eto, llawer o ddiolch – heboch chi, byddem wedi bod ar goll!"**


© Richard Stanton

## Cymunedau yn Gyntaf

Mae Cyngor Ar Bopeth Cymru wedi derbyn £2.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru trwy Brosiect Canlyniadau ar y Cyd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n ariannu 11 o Ganolfannau Cyngor Ar Bopeth yng Nghymru i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol, preswylwyr ac asiantaethau allweddol eraill i ddarparu mynediad lleol at gyngor hyd at fis Mawrth 2015. Prosiect yn canolbwyntio ar y gymuned, ac sy'n cefnogi agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, a chefnogi pobl dan anfantais yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig yw'r rhaglen hon, gyda'r nod o gyfrannu tuag at liniaru tlodi parhaus.

O fewn y chwe mis cyntaf o'r prosiect hwn, mae eisoes dros 100 o leoliadau allgymorth ar draws Cymru, yn darparu sesiynau cyngor cyffredinol yn ogystal â chyngor gallu ariannol a hyfforddiant ariannol yn y cymunedau.

> "Mae lefel y gwasanaeth yn uchel iawn [ac] roeddwn i'n teimlo dan lai o straen yn gwybod fy mod am gael help."

**Adborth gan gleient**

**Fel rhan o'r prosiect hwn, mae CAB Merthyr Tudful wedi cyflwyno sesiynau grŵp ar Allu Ariannol yn eu cymuned ers mis Tachwedd 2013. Mae'r prosiect yn cynnwys gwasanaethau cynghori allgymorth a hefyd y cyfle i gyflwyno sesiynau grwp ar sgiliau arian er mwyn llywio, addysgu a rhoi grym i'r cyfranogwyr i reoli eu harian yn well, ac i gyllido'n fwy hyderus ac effeithiol. Mae'r dull ataliol hwn yn codi ymwybyddiaeth ymysg y cyfranogwyr, ac yn y pen draw, yn ystod y cyfnod cymdeithasol ac economaidd anodd hwn, yn lleihau'r risg o galedi ariannol ac allgau.**

**Mae CAB Merthyr Tudful hefyd wedi gwneud cynnydd mawr yn adeiladu a datblygu perthynas â'r ysgolion cynradd, iau ac uwchradd ar draws y fwrdeistref er mwyn cael at gynulleidfa ifanc. Hyd yma, mae sesiynau ysgol wedi'u derbyn yn dda gan ddisgyblion, myfyrwyr ac athrawon, a hwythau'n dangos diddordeb brwd i ganfod mwy am bynciau ariannol fel cyllido a dulliau i wneud arian fynd ymhellach.**

## Gwasanaethau cynghori lleol

Yn ogystal â chyflenwi'r gwasanaethau llwyddiannus ledled Cymru, mae'r Canolfannau Cyngor Ar Bopeth lleol yn gweithio'n galed yn eu cymunedau i sicrhau, beth bynnag fo'r sefyllfa, eu bod yn gallu addasu i anghenion sy'n newid eu hardal leol er mwyn canfod y datrysiadau gorau ar gyfer eu cwsmeriaid.

### Cefnogi dioddefwyr llifogydd yn y Rhyl

Ym mis Rhagfyr 2013, bu raid i 400 o bobl yn y Rhyl adael eu cartrefi yn dilyn i lanw uchel a gwyntoedd cryfion guro Gogledd Cymru ac achosi llifogydd. Ymatebodd CAB Sir Ddinbych i'r trychineb ar unwaith, gan fynd i'r ganolfan cymorth argyfwng gyda'u staff a gwirfoddolwyr. Ar y dechrau, gweithiodd staff gyda'r cyngor a chynorthwyo pobl i ganfod llety, dillad sych a thaclau ymolchi. Yn yr wythnosau'n dilyn, bu iddynt aros yn y ganolfan cymorth yn darparu cyngor a chefnogaeth i ddioddefwyr y llifogydd a oedd yn ceisio delio â hawliadau yswiriant, grantiau, hawlio budd-daliadau a materion gwasanaethau.




Roedd profiad y ganolfan yn cefnogi dioddefwyr llifogydd Llanelwy yn 2012 yn amhrisiadwy, gan eu bod yn meddu ar y gallu, yr wybodaeth a'r arbenigedd i ddarparu'r cymorth a'r gefnogaeth oedd pobl ei angen i adfer y bywydau oedd ganddynt cyn y llifogydd.

Mae'r ganolfan yn parhau i ddarparu gwasanaeth galw i mewn dau ddiwrnod yr wythnos yn y Rhyl yng nghanol y gymuned a effeithiwyd arni gan y llifogydd.

## Yr Hyb Cynghori yng Nghaerdydd

Eleni, roedd CAB Caerdydd a'r Fro yn rhan annatod o'r Hyb Cynghori yng nghanol y ddinas, cysyniad newydd a ddyfeisiwyd gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Mae staff CAB yn gweithio'n glos, ochr yn ochr â staff o dîm Cynghori'r cyngor, Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro, Cymdeithas Flaengar y Somaliaid, Safonau Masnach, Diverse Cymru a Speakeasy.




Mae gan y swyddfeydd dderbynfa ddisglair a chroesawus gyda mynediad at Adviceline ac Adviceguide. Rheolir gwasanaethau'r dderbynfa gan y cyngor, ac mae'r ganolfan yn cydweithio â hwy i ganfod y sefydliad iawn i gynorthwyo'r cwsmer. Yn aml iawn mae gan y cwsmeriaid anghenion cymhleth, a gall cynghorwyr CAB, gyda chydsyniad y cwsmer, drafod yr anghenion hyn gyda staff o sefydliadau eraill. Mae hyn yn golygu y gall y dull 'un lleoliad, un cyswllt' ddatrys y mater yn fuan ac yn effeithlon i'r cwsmer.


## Tîm Cyflogaeth a Chydraddoldeb CAB Casnewydd

Mae Tîm Cyflogaeth a Chydraddoldeb CAB Casnewydd wedi parhau a'u gwaith yn cefnogi a chynrychioli cwsmeriaid sydd wedi cael profiad o gamwahaniaethu ym maes cyflogaeth, nwyddau a gwasanaethau. Gwneir eu gwaith yn fwy anodd o ganlyniad i gyflwyno ffioedd yn y tribiwnlysoedd cyflogaeth, a hynny wedi gostwng gallu eu cwsmeriaid i gymryd y camau angenrheidiol. Er gwaethaf y rhwystr hwn, mae'r ganolfan wedi parhau i gynhyrchu nifer o storiau am lwyddiant, adnabod camwahaniaethu ac ennill iawndal i'r cwsmer.

Gwnaeth un cwsmer a oedd yn cael ei chynrychioli yn y tribiwnlys gan ei CAB, hawliad yn erbyn ei chyflogwr, sef siop ffonau symudol/ategolion, am ddiswyddo annheg a chamwahaniaethu ar sail rhyw. Barnodd y tribiwnlys fod ei hawliad yn rhesymol a dyfarnwyd dros £7,000 o iawndal iddi.

Trwy gydol y flwyddyn, mae CAB Casnewydd wedi gwella mynediad at eu gwasanaeth, wedi codi ei broffil ac ymgyrchu mewn digwyddiadau ac wedi hyrwyddo eu gwaith *Sefyll dros gydraddoldeb*. Mae'r tîm Cyflogaeth a Chydraddoldeb hefyd wedi ymgyrchu ochr yn ochr â Chymorth i Fenywod gyda golwg ar eu hymgyrch cenedlaethol cyfredol "Reclaim the Night", sy'n codi'r mater o drais yn erbyn menywod.

## Y galw am gyngor



| | |
|---|---|
| Budd-daliadau a chredydau treth | 42% |
| Dyled | 31% |
| Cyflogaeth | 5% |
| Tai | 5% |
| Defnyddwyr (heb fod yn ariannol) | 4% |
| Perthynas a theulu | 4% |
| Cyfreithiol | 3% |
| Nwyddau a gwasanaethau ariannol | 1% |
| Iechyd a gofal yn y gymuned | 1% |
| Mewnfudo, lloches a chenedligrwydd | 1% |
| Arall | 3% |

**ESA**

**25%** o holl faterion budd-daliadau yn ymwneud â lwfans cyflogaeth a chymorth.

**11%** o holl faterion dyled yn ymwneud â materion cardiau credyd, cardiau siop a chardiau tâl.

**20%** o holl faterion cyflogaeth yn ymwneud â chyflog a hawliau.

**30%** o holl faterion tai yn ymwneud ag eiddo ar rent yn y sector preifat.

# Polisi ac ymgyrchoedd

Nid yw gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yma i roi cyngor ar gyfnodau o argyfwng yn unig; rydym yn gweithio hefyd i ddylanwadu, newid a gwella bywydau pobl yng Nghymru. Rydym yn siarad ar ran miloedd o bobl sy'n defnyddio gwasanaeth ein canolfannau bob blwyddyn, ac ar ran pob defnyddiwr hefyd.

Rydym yn defnyddio tystiolaeth fanwl o'r canolfannau i ddylanwadu ar wneuthurwyr polisi a darparwyr gwasanaethau. Hefyd, rydym nawr am gyflawni ymchwiliadau mwy eang gyda defnyddwyr ar draws Cymru, er mwyn sicrhau ein bod yn deall y problemau sy'n eu hwynebu.

Mae hwn yn amser caled i lawer o bobl yng Nghymru. Er gwaethaf y newydd positif diweddar am yr economi, mae biliau anhepgor cadw tŷ yn codi ac yn rhoi pwysau enfawr ar gyllid teulu.

I adlewyrchu'r profiadau hyn rydym wedi:

- cyflawni ymchwiliad â phobl a effeithiwyd arnynt gan ddiwygiadau lles er mwyn deall effaith cronnus y diwygiadau ac i hysbysu agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru
- cyhoeddi'r canfyddiadau o gynllun peilot Cyngor Ar Bopeth ar Reoli'r Mudo i Gredyd Cynhwysol i ddangos lefel a natur y gefnogaeth fydd ein cwsmeriaid ei hangen wrth wneud y trosiad i gredyd cynhwysol. Roedd yr adroddiad hwn yn dangos y bydd cyfran uchel o gwsmeriaid angen cefnogaeth i wneud y trosiad i'r system newydd



- codi materion am briodoldeb dangosyddion arfaethedig newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, yn benodol, y potensial i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd gwledig golli allan ar fuddion ymyriadau polisi wrth fynd i'r afael ag amddifadedd
- ymchwilio i berfformiad y Gronfa Cymorth Dewisol yng Nghymru er mwyn goleuo dyfodol y gronfa ac adnabod a goleuo awgrymiadau ar gyfer newid
- dylanwadu'n uniongyrchol ar y Bil Tai a'r Bil Rhentu Cartrefi i sicrhau bod gan bobl sy'n byw yn y sector rhentu preifat yng Nghymru ddiogelwch mwy
- cyhoeddi adroddiad ar y cyd â Shelter Cymru ar droi allan dialgar, a gwneud achos dros gyflwyno diogelwch, mewn cyfraith, i denantiaid yng Nghymru. Lansiwyd yr adroddiad yn stondin Cyngor ar Bopeth Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cylch 2013 ble bu inni siarad â dros 4,000 o ymwelwyr yn ystod yr wythnos




- cymryd rhan weithredol yn adolygiad Llywodraeth Cymru ar gymorth treth cyngor yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael, ac yn addas i'r rhai fydd mewn mwyaf o angen yn y dyfodol.

Mae Canolfannau ar draws Cymru gyfan yn cymryd rhan yn ein hymgyrchoedd cenedlaethol yn ogystal ag ymgyrchu ar faterion lleol.

## Wythnos Fawr Arbed Ynni




Pat Sims a Sharon Collis o CAB Casnewydd yng Ngorsaf Gwybodaeth Casnewydd

Mae'r ymgyrch Wythnos Fawr Arbed Ynni wedi bod o gymorth i bobl gymryd camau i arbed arian ar eu biliau tanwydd trwy sicrhau eu bod ar y fargen orau, yn newid tariff neu gyflenwr ac i gymryd cymorth i insiwleiddio eu cartrefi a gostwng eu defnydd o ynni. Bu Canolfannau Cyngor Ar Bopeth yn mynd o gwmpas dros 200 o ddigwyddiadau lleol, ac roedd cymorth a chyngor ar gael i ddefnyddwyr ar-lein neu trwy sesiynnau hyfforddi a roddwyd gan eu canolfan cynghori lleol i dros 450 o bobl yn ystod yr ymgyrch.

"Rydym yn awyddus i sicrhau na fydd unrhyw un yn talu ceiniog fwy na sydd raid iddynt ar gostau ynni. Mae pethau ymarferol y gall pobl eu gwneud i ostwng eu biliau ynni a chynorthwyo i leddfu pwysau ariannol. Yn ystod Wythnos Fawr Arbed Ynni, bu i Ganolfan CAB Casnewydd gynorthwyo defnyddwyr i wirio, newid ac insiwleiddio er mwyn gostwng eu costau ynni. Mae'r codiad yng nghostau byw yn golygu na fydd eu cyllid tŷ yn ddigon i dalu am eu hanghenion dydd i ddydd."

**Den Foley, Prif Swyddog, CAB Casnewydd**

## Gwiriwch, peidiwch difaru

Ym mis Tachwedd bu inni ymuno â Sefydliad Safonau Masnach i lansio ein hymgyrch moduron ail-law. Bu inni ofyn i bobl 'wirio, a pheidio difaru', yn amlygu'r problemau gaiff pobl gyda moduron ail-law – un o'r tri phrif bryderon a godwyd gan wasanaeth defnyddwyr Cyngor Ar Bopeth. Yr ymgyrch oedd canolbwynt Wythnos Genedlaethol Defnyddwyr a bu i'r canolfannau trwy Gymru gynorthwyo eu cymunedau i ddysgu mwy am y problemau wrth brynu modur ail-law.

## Yn wallgof am yr hysbys



Bu inni ganfod nad oedd cwmnïau benthyciad diwrnod cyflog yn trin eu cwsmeriaid yn deg a hyd yn oed yn torri rheoliadau ac arweiniad ynghylch benthyciad cyfrifol.

Felly, aeth Cyngor Ar Bopeth Cymru 'yn wallgof am yr hysbys'. Bu inni ofyn i'n cefnogwyr roi gwybod am hysbysebu anghyfrifol neu gamarweiniol. Gweithiodd y Canolfannau gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau y byddai defnyddiau hysbysebu camarweiniol ac anghyfrifol yn cael eu symud o ystod o leoliadau yn cynnwys adeiladau ym mherchnogaeth awdurdodau lleol, fel canolfannau cymunedol. Ar lefel y DU, bu i Gyngor Ar Bopeth sicrhau cytundeb gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gyfer ystod o fesurau i fynd i'r afael â benthyciadau diwrnod cyflog, yn cynnwys gofyniad i gwmnïau benthyciad wneud gwiriadau ynghylch a all y benthyciwr fforddio'r benthyciad cyn ei ganiatáu, a chyfyngu i ddau y nifer o fenthyciadau treigl ellid eu caniatáu i unigolyn.

# Partneriaethau

Mae gweithio ag amryw o wahanol bartneriaid yn rhoi'r modd inni gyrraedd grŵp mwy eang o gwsmeriaid na fyddem yn eu cyrraedd ar ein pen ein hunain.

**Yng Nghymru rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector, partneriaid corfforaethol, llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol a chydag ymddiriedolaethau a sefydliadau.**

**Diolch i gefnogaeth ein partneriaid, rydym wedi gallu cyrraedd y cannoedd ar filoedd o bobl a chymunedau sydd fwyaf ein hangen, a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gymaint o fywydau, trwy fynd i'r afael â'u problemau a'u cynorthwyo i wneud dewisiadau gwybodus.**

**Mae buddiannau amlwg i bawb wrth weithio mewn partneriaeth gan inni allu manteisio ar arbenigedd, enw da a chyffyrddiadau ein gilydd. Ond o'r pwys mwyaf yw'r canlyniadau cadarnhaol ychwanegol rydym yn eu hennill i fwy o bobl gyda'n gilydd.**

## Prosiectau a phartneriaethau'r Ganolfan

### Fforymau gallu ariannol yng Nghymru

Trwy ei Raglen Sgiliau Ariannol am Oes, mae Cyngor Ar Bopeth yn cefnogi 14 o fforymau gallu ariannol rhanbarthol yng Nghymru a Lloegr.

Mae dau fforwm yng Nghymru'n cyfarfod bob chwarter, ac yn dwyn at ei gilydd ystod amrywiol o brif chwaraewyr, lleol a chenedlaethol, o sector eang o'r llywodraeth a'r gymdeithas sydd â diddordeb yn yr agendâu gallu/cynhwysiad ariannol.

Mae'r fforymau wedi'i gwneud yn bosib i ddylanwadu ar bolisi ac arferion lleol a chenedlaethol mewn sawl ffordd. Yn ddiweddar bu i aelodau ymateb i alwad am gynghorwyr i gymryd rhan yn ymchwiliad Cyngor Ar Bopeth Cymru i archwilio barn ar flwyddyn gyntaf Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru.

"Mae bod yn aelod o fforwm gallu Ariannol Canolbarth, De a Gorllewin Cymru wedi bod yn hanfodol i'n gwaith – yn arbennig y cyfle i rwydweithio a gwneud cysylltiadau ag asiantaethau partner oedd yn ymwneud â gallu ariannol."

**Lisa Chilcott, Cydlynydd Hyfforddiant Gallu Ariannol, CAB Sirol Caerffili**

"Llwythi i fynd yn ôl i'r timau yn RNIB Cymru – wedi gwneud cysylltiadau grêt."

**Andy Williams, RNIB**

## Ynys Môn – Partneriaeth Weithredol Effaith Diwygio Lles

Mae CAB Ynys Môn wedi sefydlu Partneriaeth Weithredol Effaith Diwygio Lles (OWRIP) ac wedi datblygu cynllun gweithredu i liniaru effaith diwygio lles. Mae'r bartneriaeth hon yn enghraifft ardderchog o gyd-gynhyrchu, yn cael ei harwain gan y trydydd sector (gan Gadeirydd CAB Ynys Môn) ac yn cydweithredu'n uniongyrchol â'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol a Bwrdd Strategol Diwygio Lles i sicrhau lleihau dyblygu a lleihau nodau ac amcanion cyffredin.

O'r OWRIP, mae'r grŵp wedi canfod anghysondebau yn Nhaliadau Tai yn ôl Disgresiwn yr awdurdodau lleol, ac o ganlyniad bu i rai o weithwyr achos CAB Ynys Môn gyfarfod â Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau i addasu'r rhain. Aethpwyd â drafft a gynhyrchwyd gan y ganolfan mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, i weithdy agored i gyflwyno a thrafod y polisi newydd gyda phartneriaid. Roedd adborth yn awgrymu i'r gweithdy fod yn hynod effeithiol a defnyddiol, a gofynnwyd i'r ganolfan barhau i gynnal gweithdai tebyg ar thema diwygio lles.

## CAB Gwynedd a De Ynys Môn yn gweithio mewn partneriaeth â Rhaglen Llywodraeth Cymru ar Dwf Swyddi Cymru



Liam Rogers a Cai O'Marah, dau o'r cyfranogwyr (y ddau ar y rhaglen ar hyn o bryd)

Ers ei chychwyniad ym mis Ebrill 2012, mae CAB Gwynedd a De Ynys Môn wedi cefnogi Rhaglen Twf Swyddi Cymru sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc yn barod am waith, ond wedi'i chael yn anodd sicrhau gwaith. Mae'r rhaglen yn darparu cyfle am waith sy'n talu isafswm cyflog cenedlaethol am gyfnod o chwe mis i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed,

Ers Ebrill 1 2013, mae naw o bobl ifanc wedi'u cyflogi yn y ganolfan dan y rhaglen, wedi'u hyfforddi un ai fel aseswyr porth neu swyddogion cymorth gweinyddol.



**Mae tri wedi sicrhau contract tymor hirach gyda'r ganolfan.**

**Mae tri wedi sicrhau gwaith gyda chyflogwr arall.**

**Mae tri yn parhau ar y rhaglen.**

Dywedodd Lee Pritchard, un o'r cyfranogwyr a oedd wedi sicrhau gwaith gyda chyflogwr arall:

> "Heb yr hyfforddiant a'r profiad gwaith a gefais, nid oes unrhyw ffordd y byddwn wedi sicrhau gwaith gyda darparwr hyfforddiant achrededig. Byddwn yn argymell y rhaglen hon i unrhyw un rhwng 16 a 24 sydd allan o waith."

Dywedodd George Williams Rheolwr Cyflenwi Gwasanaeth y ganolfan:

> "Mae'r galw am gyngor a gwybodaeth yn cynyddu, ac mae'r rhaglen hon yn ein galluogi i gyfarfod y galw, ac yr un pryd, yn paratoi hyfforddiant o'r graen blaenaf a chyflogaeth gynaliadwy. Mae'n sefyllfa ble mae pawb yn ennill."


© Citizens Advice/ABCUL 2008

## Ymyriadau Gamblo yn mynd i strydoedd Casnewydd mewn partneriaeth â Big Issue Casnewydd

Mae CAB Casnewydd wedi mynd â'i Wasanaeth Ymyriadau Gamblo i'r strydoedd gyda chymorth y bartneriaeth gref sydd wedi'i hadeiladu gyda Big Issue Casnewydd

Yn dilyn ei hyfforddi, roedd gweithiwr cynnal yn Big Issue Casnewydd yn gallu adnabod arwyddion problemau gamblo ymysg eu gwerthwyr. Roedd y grŵp bregus hwn o gwsmeriaid yn amharod f fynd at CAB na gwasanaethau eraill, felly cymerodd y gweithiwr ymyriadau gamblo ddull gwahanol i ddod â'r gwasanaeth at y cwsmer.

O ganlyniad, cafwyd ymweliadau cynnar iawn yn y bore â swyddfa dosbarthu Big Issue, lot a de yn siop coffi Byddin yr Iachawdwriaeth, a llawer o ymgomio ar strydoedd Casnewydd. Rhoddodd y dull cynnes a di-lol hwn gan y Gweithiwr Ymyriadau Gamblo y cyfle i ddatblygu perthynas o ffydd a chyd-barch, a galluogi'r ganolfan i gynnig ymyriadau effeithiol i'r cwsmer i fynd i'r afael â gamblo problemus.

Gyda dyfalwch a pharodrwydd i fynd y filltir ychwanegol, fe chwalwyd rhwystrau, a chaniatáu i'r ganolfan fynd â'r gwasanaeth cynghori, a'i deilwra i anghenion penodol y cwsmer.

## Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf Caerdydd a'r Fro

Eleni, mae CAB Caerdydd a'r Fro wedi gweithio'n agos gyda'i awdurdod lleol i gynnal y teuluoedd mewn mwyaf o angen ym Mro Morgannwg, yn darparu gwasanaeth ymweld yn y cartref a mynd i'r afael ag anghenion cymhleth teuluoedd a ganfuwyd i fod angen cymorth gan y tîm Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r dull traws-bartneriaeth hwn wedi galluogi'r ganolfan i adnabod a chynorthwyo pobl yn briodol.

Mae'r ganolfan wedi darparu cymorth gwaith achos ac eiriolaeth ar ystod o faterion, a gweithio'n glos â FACT (Teuluoedd yn Cyflawni Newid Gyda'i Gilydd), Gwasanaethau Cymdeithasol, Gweithredu dros Blant a Dechrau'n Deg, i gynghori teuluoedd na fyddai erioed wedi cysylltu â'r gwasanaethau hyn o'r blaen.

**Cyfeiriwyd Rachel gan dîm FACT gan fod ei budd-daliadau wedi stopio. Arweiniodd gweithio gyda Rachel a'i dau o blant at:**

- **apêl a hawliad ESA llwyddiannus**
- **atal achos meddiannu**
- **atal achos llys am ôl-ddyledion treth cyngor**
- **cynllun talu a gytunwyd gyda'r credydwyr**
- **hawliad am daliad annibyniaeth personol**
- **ennill ariannol o £19,000 i'r teulu dros y flwyddyn.**

# Gwirfoddoli

## Ein gwirfoddolwyr

**O'r 1,400 o bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth ar draws Cymru, mae bron i 800 ohonynt yn wirfoddolwyr, oll o wahanol gefndiroedd gydag ystod o sgiliau. Maent yn gwneud amrywiaeth o swyddogaethau, o roi cyngor i godi arian, TG, gweinyddol, cyhoeddusrwydd, ymgyrchu ac ymddiriedolaeth.**

**Dros £5 miliwn yw pris gwerth y farchnad y gwaith a wneir gan ein gwirfoddolwyr yng Nghymru.**

## Manteision i bawb

Mae gwirfoddoli gyda CAB yn rhoi manteision enfawr i gymunedau lleol. Rhoddodd ein gwirfoddolwyr yng Nghymru werth dros £5 miliwn o oriau gwaith rhyngddynt yn 2013/14. Heb eu hangerdd a'u haelioni, byddai'r gwasanaeth yn brwydro i barhau'n fyw, a thrwy fethu datrys problemau byddai'r gost i'r economi'n cynyddu. Mae gwirfoddolwyr CAB yn cael mantais o dderbyn hyfforddiant rhad ac am ddim, cefnogaeth gyfredol a threuliau. Canlyniad hyfforddiant yw cymhwyster achrededig a fydd, yn ogystal â'r profiad o wirfoddoli, yn cynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau am oes, tu hwnt i'r ganolfan. Mae pum deg pump y cant o'r gwirfoddolwyr a adawodd y gwasanaeth yn 2013/14 wedi mynd i addysg bellach neu i gyflogaeth am dâl.

I bobl ifanc, mae gwirfoddoli yn rhoi profiadau newydd, yn hwb i hyder ac yn llwybr i waith neu addysg. Mae ein gwirfoddolwyr hŷn neu ein gwirfoddolwyr sydd wedi ymddeol yn dweud bod gwirfoddoli yn eu cadw'n weithgar, mewn cysylltiad â'r gymuned ac yn golygu eu bod yn gallu rhoi rhywbeth yn ôl. Yr hyn sy'n gyffredin ar draws yr holl wirfoddolwyr yw eu bod yn cael gwirfoddoli yn brofiad gwerthfawr unigryw.

## Cymwysterau drwy wirfoddoli yn CAB Sir Ddinbych

Ym mis Mawrth 2014, roedd CAB Sir Ddinbych yn falch o gyflwyno dyfarniad lefel 3 mewn Darparu Cyngor Cyfreithiol Cychwynnol i Carl Makin, un o'n gwirfoddolwyr.

Dyma'r cymhwyster cyntaf i'w ddyfarnu gan ganolfan asesu cymwysterau, Cyngor Ar Bopeth ac mae'n un o bedwar cymhwyster cyngor cyfreithiol sydd wedi'u datblygu rhwng Canolfan Cyngor Ar Bopeth ac asiantaethau cynghori eraill.

Mae'r cymwysterau hyn yn gymorth i gynnal datblygu strwythurau gyrfa ym maes cyngor cyfreithiol, ac mae'r cyfle i ennill cymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol, yn ychwanegiad da i'r profiad gwirfoddoli, ochr yn ochr â llawer o sgiliau eraill y gall gwirfoddolwyr eu hennill wrth weithio yn y ganolfan.

Dechreuodd Carl wirfoddoli yn CAB Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf 2011, cyn iddo gychwyn yn y chweched dosbarth, ac wedi symud ymlaen o Aseswr Gateway i Gynghorwr Cyffredinol yn y ganolfan. Mae Carl nawr ym Mhrifysgol Caerweir, ond yn parhau i weithio gyda'r ganolfan leol, CAB Caerweir, ac yno mae dan hyfforddiant i ddod yn Oruchwyliwr Sesiynau Cynghori, a hyn o ganlyniad i'w brofiad gyda CAB Sir Ddinbych.



(O'r dde i'r chwith) Fran Targett, Cyfarwyddwr, Cyngor Ar Bopeth Cymru, Carl Makin, Cynghorwr Cyffredinol, Ann Dewbury, Swyddog Hyfforddi, CAB Sir Ddinbych, Lesley Powell, Prif Swyddog Gweithredol, CAB Sir Ddinbych




Peter Dickinson, Cydlynydd Recriwtio Gwirfoddolwyr, CAB Sir Benfro

## CAB Sir Benfro – prosiect Ymgysylltu â Gwirfoddolwyr wedi'i ariannu gan WCVA.

Ers 2011, mae CAB Sir Benfro wedi bod yn rhedeg ei brosiect Ymgysylltu â Gwirfoddolwyr, sydd wedi'i ariannu gan Gwirfoddoli yng Nghymru y WCVA.

Mae'r prosiect yn anelu at gynyddu amrywiaeth y bobl sydd am wirfoddoli trwy ymgysylltu â grwpiau sydd mewn perygl o allgau cymdeithasol. Mae'n cynnig ystod o gyfleon gwirfoddoli diddorol i unigolion, ac mae'n sefydlu grŵp hunangynhaliol o wirfoddolwyr i fod yn gyfrifol am farchnata'r ystod o gyfleon gwirfoddoli.

Erbyn mis Mawrth 2014, roedd 73 o wirfoddolwyr newydd wedi cyfrannu dros 12,000 o oriau gwirfoddoli – cryn gyflawniad mewn ardal sydd bennaf yn wledig.

"Mae gwirfoddoli gyda CAB yn ffordd ffantastig i bobl ennill sgiliau newydd a datblygu eu profiad, gyda mynediad at raglen hyfforddi gyson, strwythuredig ac o ansawdd. Mae gennyf i gred fawr mewn hyfforddi a chynorthwyo pobl i gyrraedd eu potensial, ac rwy'n barod i annog a mentora gwirfoddolwyr. Mae pob gwirfoddolwr sydd â phrofiad ystyrlon a phleserus gyda ni, yn golygu bod person arall yn mynd allan i'r gymuned gyda Chyngor Ar Bopeth wedi'i datŵo i'w galon."

**Nicola Roguski, Prif Swyddog, CAB Sir Benfro**

"Rydym yn anelu at ddatblygu dyddlyfr dysgu a ellid ei ddefnyddio mewn unrhyw ganolfan, ac a fyddai'n gymorth i wirfoddolwyr ddatblygu enghreifftiau da ac ymarferol o sgiliau poblogaidd y bydd cyflogwyr yn chwilio amdanynt, ac a ellid eu defnyddio i gryfhau ceisiadau am waith, ac mewn cyfweliadau."

**Mal Edgson, Prif Swyddog, CAB Torfaen**

## Prosiect gwirfoddoli CAB Torfaen

Mae profiad gwirfoddoli o fewn Canolfanau Cyngor Ar Bopeth yn arbennig o gyfoethog yn y sgiliau poblogaidd a throsglwyddedig y bydd llawer o gyflogwyr yn chwilio amdanynt. Y rhain yn cynnwys sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a geiriol, sgiliau rhyngbersonol, gweithio mewn tîm a sgiliau trefnu.

Ochr yn ochr â'n partneriaid, Pontydd i Waith Torfaen, mae'r ganolfan yn gweithio gyda grŵp o wirfoddolwyr i wella'u siawns o gael gwaith. Wrth ddefnyddio model sgiliau cyflogadwyedd a ddatblygwyd gan adran gyrfaoedd Prifysgol Caint, byddant yn mapio'r sgiliau a enillir gan wirfoddolwyr mewn ystod o swyddogaethau. O hyn, maent yn bwriadu datblygu model y gall gwirfoddolwyr ei ddefnyddio i wella'u CV a'u techneg cyfweld.

# Y ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu

Mewn cyfnod ariannol anodd, credwn ei bod yn hanfodol i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru gydweithio â chyllidwyr strategol eraill i sicrhau fod diffaethwch cyngor yn cael ei ddileu yng Nghymru.

## Ariannu ledled Cymru

Mae'r cyllidwyr allweddol eleni'n cynnwys:

- **Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol:** Yn dilyn tair blynedd lwyddiannus o ragori ar y contract am gyngor wyneb-yn-wyneb ar arian, mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol wedi cytuno i ymestyn eu contract am ddwy flynedd arall, hyd at Fawrth 2016
- **Ariannu Gwasanaethau Cynghori:** Er mwyn lliniaru ar y toriadau i gyllid gwasanaethau cynghori yn ystod y flwyddyn ariannol hon, parhaodd Llywodraeth Cymru i ddarparu arian tymor byr o brin dros £1miliwn ar gyfer CAB ac asiantaethau cynghori eraill ar draws Cymru
- **Cyngor Wyneb-yn-wyneb ar ddyledion:** Mae'r prosiect cyngor Wyneb-yn-wyneb ar ddyled yn cael ei ariannu gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol a'i ddarparu gan ganolfannau Cyngor Ar Bopeth ac asiantaeth bartner mewn lleoliadau ar draws Cymru. Roedd y cyfanswm o gwsmeriaid newydd a welwyd gan y gwasanaeth hwn yng Nghymru yn ystod 2013/1 dros 11,000 a chyda dyled ganolig a £13,465 y cwsmer.

> "Rwy'n ddiolchgar iawn am yr holl wybodaeth a chyngor a gefais. Hoffwn yn fawr petai mwy o arian yn cael ei roi i ganolfan Cyngor Ar Bopeth er mwyn iddynt allu gwario mwy o oriau yn rhoi gwasanaeth i lawer o bobl eraill."

**Adborth gan gleient**

# Ariannu lleol yng Nghymru

**Mae cyllid craidd ar gyfer canolfannau lleol gan awdurdodau lleol ar draws Cymru yn hanfodol i gyflenwi costau seilwedd y canolfannau. Mae hefyd yn lifer i gael cyllid tymor byr ychwanegol ar gyfer prosiectau, ac yn caniatáu gwasanaethau ychwanegol i gymunedau lleol.**

## Cronfa'r Loteri Fawr – Prosiect Cynhwysiant Ariannol Cymunedol

Ar gyfer eu Prosiect Cynhwysiant Ariannol Cymunedol, llwyddodd Canolfan Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych i sicrhau £225,000 dros dair blynedd o Gronfa'r Loteri Fawr.

Mae'r prosiect, a ddechreuwyd yn mis Mawrth 2014 gyda chymorth Martin Lewis o MoneySavingExpert.com a Fran Targett, Cyfarwyddwr Cyngor Ar Bopeth Cymru, yn darparu gwasanaeth wyneb-yn-wyneb ac yn rhoi cyngor deublyg ar arian (dyled a chyngor ataliol ar arian) i unigolion a grwpiau tan 8pm fin nos ac o 10am i 5pm ar ddydd Sadwrn, yn y Rhyl a Dinbych Uchaf, y wardiau mwyaf difreintiedig yn Sir Ddinbych,

Bydd y gwasanaeth hwn, yn ogystal â chaniatáu i'r ganolfan roi cymorth i gwsmeriaid sydd, ar hyn o bryd, yn methu cael at y gwasanaeth yn ystod y dydd, yn edrych i roi cyfweliadau ar-lein ar waith er mwyn cynorthwyo cwsmeriaid sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, ble bu'r gwasanaethau'n anodd eu cyrraedd yn flaenorol.



Tomas Shea-Waters, Gweithiwr Digidol, CAB Sir Benfro

## Prosiect CAB Sir Benfro ar Les Digidol 2014

Mae Canolfan Cyngor Ar Bopeth Sir Benfro, ar y cyd â Chymunedau 2.0, yn chwarae rhan arwyddocaol yn y prosiect rhanbarthol newydd 'Lles Digidol y Gorllewin' wedi'i ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru.

Gwelir cynhwysiant digidol fel cyfrannwr perthnasol iawn i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu, ac felly yn ffurfio rhan o strategaeth wrthdlodi CAB Sir Benfro.

Mae'r prosiect wedi bod yn fodd i sefydlu cysylltiadau arwyddocaol gyda Chyngor Sir Benfro, tair swyddfa Canolfan Byd Gwaith, Cymunedau yn Gyntaf ac amryw o sefydliadau eraill, sydd oll yn ymdrin ag effaith diwygio lles.

Mae'r Swyddog Lles Digidol nawr yn mentora a hyfforddi staff rheng flaen y sefydliadau hyn i ddarparu cefnogaeth cynhwysiant digidol, addasu gwasanaethau prif ffrwd i gynnwys cynhwysiant digidol a, phan yn bosib, hyfforddi eu Pencampwyr Digidol eu hunain i gadw ffocws ar gynhwysiant digidol ac ariannol.

Bu i weithwyr a chwsmeriaid CAB Sir Benfro fod ar eu mantais drwy gael aelod staff ychwanegol sy'n darparu cymorth a hyfforddiant i fynd i'r afael ag agenda cynhwysiant digidol y ganolfan, ac o ganlyniad, mae wedi gwneud newidiadau cadarnhaol. Fel bydd y prosiect yn cael ei roi ar waith, estynnir y manteision hyn i staff a gwirfoddolwyr CAB Ceredigion.

# Cyfanswm y cyllid yng Nghymru

## Dros £11 miliwn
**i Ganolfan Cyngor Ar Bopeth yng Nghymru yn 2013/14.**


O'i gymharu â ffigyrau 2012/13, mae cyllid i'r canolfannau yng Nghymru wedi gostwng naw y cant.

Mae'n bwysig nodi bod cyllid ar gyfer cyngor arbenigol wedi dioddef yn arw gyda thoriad o 83 y cant yng nghyllid cymorth cyfreithiol, oedd ond yn gadael arian ar gyfer achosion dros ben. Ni fydd hyd yn oed y lefel isel hon o arian ar gael yn y flwyddyn 2014/15.

Mae'n braf nodi bod arian o'r awdurdodau lleol wedi cynyddu yn ystod y cyfnod, a bod yr awdurdodau wedi gweithio'n glos â'u gwsanaethau lleol gan ddeall bod cyngor annibynnol yn hanfodol yn y cyfnod anodd hwn.

Mae cefnogaeth barhaus a chynyddol Llywodraeth Cymru i'r gwasanaethau cynghori gydag ariannu untro i'r sector gynghori ehangach ac ymrwymiad am arian newydd yn benodol i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ar draws Cymru, i'w cymeradwyo.

Am ddadansoddiad o sefyllfa ariannol pob un Canolfan Cyngor Ar Bopeth, edrychwch ar adroddiad blynyddol y canolfannau unigol.



| | |
|---|---|
| Awdurdod lleol | £4,100,000 |
| Arian gan Lywodraeth Cymru | £3,100,000 |
| Arian gan Gwasanaeth Cynghori Ariannol | £1,600,000 |
| Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol | £300,000 |
| Cronfa'r Loteri Fawr | £174,000 |
| Arall | £1,800,000 |

Ffigyrau rhagarweiniol wrth fynd i argraffu.

**Bydd gwasanaeth CAB yng Nghymru yn parhau i chwilio am gyfleoedd ariannu er mwyn sicrhau y bydd cwsmeriaid ar draws Cymru yn cael mynediad at y cyngor fydd ei angen ar gyfer y problemau sy'n eu hwynebu.**

## Ein nod

- I ddarparu'r cyngor mae pobl ei angen ar gyfer y problemau sy'n eu hwynebu.
- I wella polisïau ac arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

## Ein hegwyddorion

Mae'r gwasanaeth Cyngor Ar Bopeth yn cynnig i bawb gyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd ar eu hawliau a'u cyfrifoldebau yn rhad ac am ddim. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu.

Cyngor Ar Bopeth Cymru
Tŷ Quebec
Castlebridge
5-19 Heol y Bont-faen
Caerdydd
CF11 9AB

Ffôn: 03000 231011
Ffacs: 03000 231060

Y Llinell Gyngor: **08444 77 20 20**

Gwasanaeth defnyddwyr Cyngor Ar Bopeth:

**03454 04 05 06** (Saesneg)

**03454 04 05 05** (Cymraeg)

**www.citizensadvice.org.uk**
**www.adviceguide.org.uk**

Cyngor Ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyngor Ar Bopeth.
Rhif elusen gofrestredig: 279057

© Citizens Advice Cymru 2014. Ni ddylid ailgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn heb ganiatâd ymlaen llaw heblaw i'r pwrpas o adolygu neu gyfeirio.

Cynhyrchwyd gan Cyngor Ar Bopeth Cymru
Mehefin 2014